



Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk

Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams

21.11.24

Annwyl Rhiant/Gofalwr

Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch annog i wirio a oes gan eich plentyn hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae prydau ysgol am ddim yn gymorth hanfodol i lawer o deuluoedd, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol hwn. Gallant eich helpu i arbed arian, sicrhau bod eich plentyn yn cael cinio iach a maethlon, a hefyd o fudd i'r ysgol drwy gyllid ychwanegol.

I fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, rhaid i chi fod yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Rhan VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- elfen gwarantedig o Gredyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad oes gennych hawl hefyd i Gredyd Treth Gwaith a bod gennych incwm gros blyneddol o ddim mwy na £16,190)
- Credyd Treth Gwaith - a delir am 4 wythnos ar ôl i chi roi'r gorau i fod yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol - os ydych yn gwneud cais ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018 rhaid i incwm eich cartref fod yn llai na £7,400 y flwyddyn (ar ôl treth a heb gynnwys unrhyw fudd-daliadau a gewch)

Ni fydd teuluoedd sy'n derbyn credydau treth gwaith yn ogystal ag unrhyw un o'r budd-daliadau uchod yn gymwys.

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys, a'ch bod yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau uchod, rydym yn eich annog i gymryd yr amser [i wneud cais](#), byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw eich statws cymhwysedd. Efallai y bydd angen i chi ddarparu prawf o'ch incwm neu fudd-daliadau, fel datganiad banc diweddar, slip cyflog, neu lythyr dyfarnu. Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth am brydau ysgol am ddim ar [wefan](#) Cyngor Sir Caerfyrddin.

Os ydych yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, efallai y byddwch hefyd yn gallu cael grantiau a chymorth ychwanegol gan y llywodraeth a sefydliadau eraill. Er enghraifft, efallai y byddwch yn gymwys i gael:

- [Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes, sy'n rhoi ad-daliad o £140 ar eich biliau ynni bob gaeaf](#)
- [Y Taliad Tywydd Oer, sy'n darparu £25 ychwanegol yr wythnos am gyfnodau oerach](#)
- [Y Rhaglen Bwyd a Hwyl, sy'n cynnig gweithgareddau a phrydau bwyd am ddim i blant yn ystod gwyliau'r ysgol](#)
- [Cronfa Cymorth Dewisol \(DAF\) | GOV. CYMRU](#)
- [Y Taliad Costau Byw, a fydd yn rhoi £900 i hawllyr budd-dal prawf modd mewn tri rhandaliad dros y flwyddyn ariannol 2023-24](#)
- [Cronfa Deuluol - Os oes gennych blentyn anabl neu ddifrifol wael o dan dair oed, ac y byddech yn elwa o gael mynediad at gar, gallai'r rhaglen Cymorth Symudedd y Gronfa Deuluol helpu.](#)
- [Y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sy'n helpu i dalu am addasiadau i'ch cartref i'w wneud yn fwy hygyrch i berson anabl](#)

Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r grantiau a'r cymorth y gallech eu cael os ydych yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae llawer mwy ar gael, yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch anghenion. Gallwch chwilio am fwy o grantiau [ar wefan Turn2us](#) neu ewch i'r dudalen [Hawlio Beth sy'n Perthyn i Chi](#) ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Gobeithiwn y byddwch yn manteisio ar y cyfle hwn ac yn gwneud cais am brydau ysgol am ddim os ydych yn gymwys. Bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i les ac addysg eich plentyn, yn ogystal ag i gyllideb ac adnoddau'r ysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen unrhyw help arnoch gyda'ch cais, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Yn gywir

A Williams

Pennaeth / Headteacher

